



Urdd



Parthed: FFORWM IEUENCTID URDD GOBAITH CYMRU CEREDIGION

Medi 2018

Annwyl Arweinydd

Sefydlwyd Fforwm Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru nôl yn Nhachwedd 2005 a hynny er mwyn i ni glywed llais ein hieuenctid.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn brif fudiad ieuenctid Cymru ac Ewrop. Mae gan y mudiad dros 50,000 o aelodau a bron i 5,000 ohonynt o Sir Geredigion. Mae brwdfrydedd yn ieuenctid y Sir tuag at waith yr Urdd a hoffwn ehangu hyn ymhellach ar draws y Sir.

Bwriad a nod y fforwm i ni fel Mudiad ydyw i gael barn a llais ein hieuenctid. Rydym yn awyddus iawn fel mudiad i wneud y mwyaf o fewnbwn ein haelodau er mwyn sicrhau fod gwaith yr Urdd yn gyfredol ac i ddatblygu yn ôl gofynion pobl ifanc Ceredigion.

Rydym yn gweithredu ar yr hyn mae ein pobl ifanc yn awgrymu ac yn symud gwaith yr Urdd yng Ngheredigion ymlaen. Rydym wedi profi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bod galw yn y Sir am weithgarwch ieuenctid a bod awydd yn ein pobl ifanc i gymdeithasu drwy'r iaith Gymraeg.

Ein gobeithion i'r dyfodol y bydd y fforwm hwn yn chwarae rôl flaenllaw iawn yng ngwaith yr Urdd yn sirol ac yna bwydo i Fwrdd Syr Ifanc sef Fforwm Cenedlaethol Yr Urdd.

Rydym yn awyddus i gael cynrychiolaeth o'r 8 Ysgôl Uwchradd ac Uwch Adrannau ac Aelwydydd y Sir. Byddem yn ddiolchgar petai pob cangen yn ethol 4 aelod ac yn medru danfon trawsdoriad o aelodau hyn ac iau. Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r atodiad amgaeedig a'i ddychwelyd at Anwen Eleri cyn y 7fed o Hydref 2018.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y fforwm ar gyfer y flwyddyn addysgol newydd ar y 10 Hydref 2018 yn Ysgol Gynradd Aberaeron am 5.15y.h - 6.15y.h.

Mawr obeithiaf am gefnogaeth pob cangen.

Yn gywir

Anwen Eleri

ANWEN ELERI
Swyddog Datblygu Ceredigion

Swyddfa Urdd Ceredigion

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog
Llandysul, Ceredigion, SA44 6AE

Ffon: 01239 652150 / 07976 003336

Ffacs: 01239 652161

Ebost: anweneleri@urdd.org